PWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD IAU, 18 EBRILL 2024

PRESENNOL Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

P. Cooper	W.T. Evans	H. Jones	M.J.A. Lewis

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

S.A. Curry	A. Evans	D. Jones	K. Madge
D.E. Williams			

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
S. Martin, Solicitor
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
L. I. Williams, Licensing Officer
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau DemocrataiddD. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.30 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr K. Howell, B.A.L. Roberts a D. Phillps.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 5 MAWRTH, 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 5 Mawrth 2024 gan eu bod yn gywir.

4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys

gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. MR LEE JENKINS - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Cyfeiriodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu at yr adroddiad yn ymwneud â Mr Lee Jenkins o 89 Stryd Iago, Llanelli sy'n meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat gyda'r Awdurdod. Gofynnodd am dynnu'r ystyriaeth yn ôl er mwyn cael gwybodaeth ynghylch digwyddiad ers i'r eitem gael ei gosod ar yr agenda.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid tynnu'n ôl ystyriaeth o'r adroddiad yn ymwneud â Mr Lee Jenkins er mwyn cael gwybodaeth ynghylch digwyddiad a fu ers i'r eitem gael ei rhoi ar yr agenda.

6. MR SIMON MATTHEW HARDY - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Simon Matthew Hardy o 3 Parc Heol Ddu, Pen y Mynydd, yn meddu ar drwydded yrru ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat gyda'r Awdurdod hwn. Rhoddodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am yr amgylchiadau yn ymwneud ag atal trwydded Mr Hardy.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld Mr Hardy ynghylch y materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu bod y gwaharddiad ar drwydded yrru ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Mr Hardy yn cael ei godi.

Ar hynny

PENDERFYNODD y Pwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD codi'r gwaharddiad ar y Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat Mr Hardy.

<u>Rheswm</u>

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded

7. MR GEOFFREY KARIN DAVIES -TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Geoffrey Karin Davies o 37a Heol Newydd, Dafen, Llanelli yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio

Preifat gyda'r Awdurdod. Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â chais Mr Davies.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld Mr Davies ynghylch y materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod trwydded Mr Hardy yn cael ei dirymu.

Ar hynny

PENDERFYNODD y Pwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD bod y Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Mr Geoffrey Karin Davies yn cael ei dirymu.

Rheswm

Roedd y ffeithiau a amlinellwyd i'r pwyllgor yn rhoi achos rhesymol dros gyfiawnhau dirymu'r drwydded ac felly nid oedd yn fodlon bod Mr Geoffrey Karin Davies yn berson addas a phriodol i barhau i feddu ar drwydded.

_____ **_____**

CHAIR **DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf